Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Capelulo**
**Treforris Road**
**Dwygyfylchi**
**Penmaenmawr**
**Conwy**
**LL34 6RA**

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2019**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Capelulo

Mae Ysgol Capelulo wedi ei lleoli ym mhentref Dwygyfylchi, ger Penmaenmawr yng Nghonwy. Mae gan yr ysgol 136 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed, gan gynnwys 22 o ddisgyblion rhan-amser yn y dosbarth meithrin. Maent wedi eu rhannu rhwng chwe dosbarth.

Dros y tair blynedd diwethaf, bu cyfran gyfartalog o tua 15% o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn fymryn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 19%. Daw ychydig o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 24% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd fymryn uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn Ionawr 2017. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref 2011.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth a'r staff yn llwyddo i greu ethos cartrefol a chynhwysol i ddisgyblion. Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad a ddarperir gan yr ysgol yn effeithiol, ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd, fel gonestrwydd a thegwch. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn gwahanol ac yn cyflawni'r safonau disgwyliedig.

Mae perthynas waith effeithiol rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd dysgu llwyddiannus. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n annog disgyblion i gyfranogi a gweithio'n galed. Mae bron pob un o'r disgyblion yn datblygu agwedd gadarnhaol tuag at ddysgu, yn ymdawelu'n gyflym i weithio ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos lefelau da o ganolbwyntio yn eu gwaith ac yn awyddus i ddysgu.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlaidd. Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mathemateg yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn cynllunio'n systematig i ddatblygu medrau Cymraeg, rhifedd na thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod y gymuned ysgol gyfan wedi ymrwymo i arwyddair yr ysgol, sef 'Cyfoethogi Bywyd wrth Ddysgu', a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr ethos cadarnhaol sydd i'w weld ym mhob dosbarth. Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol o waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol. Maent yn ymwybodol o'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i weithredu fel cyfeillion beirniadol.

Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gweithredu'n ddigon effeithiol wrth bennu cyfeiriad strategol a herio perfformiad yr ysgol. Nid oes gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso digon cadarn sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth ddibynadwy o addysgu, dysgu a darpariaeth.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwelliant** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwelliant** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod arweinwyr yn gweithredu’n fwy effeithiol wrth bennu cyfeiriad strategol a herio perfformiad yr ysgol

A2 Gwella medrau rhifedd a TGCh disgyblion, a’u safonau yn y Gymraeg

A3 Gwella medrau disgyblion wrth wneud penderfyniadau a chymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain er mwyn datblygu’n ddysgwyr annibynnol

A4 Cynllunio’n fwy pwrpasol er mwyn sicrhau gweithgareddau addas ar gyfer yr ystod allu lawn a sicrhau bod addysgu’n darparu tasgau heriol sy’n ymateb i anghenion pob disgybl

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwelliant**

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol a disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn o’u mannau cychwyn gwahanol wrth iddynt symud drwy’r ysgol, ac yn cyflawni’r safonau disgwyliedig.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando’n astud ar bobl eraill ac yn siarad yn hyderus mewn ystod o sefyllfaoedd. Er enghraifft, mae disgyblion y cyfnod sylfaen yn siarad yn frwdfrydig am fynd i barti pen-blwydd. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn mynegi eu barn yn feddylgar ac yn greadigol. Mae disgyblion ar waelod cyfnod allweddol 2 yn defnyddio iaith ddisgrifiadol yn effeithiol wrth iddynt gynhyrchu sioe gerdd a chyflwyniadau dramatig i ddisgrifio cymeriadau llwythi Celtaidd Cymreig hynafol.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. O oed cynnar, mae disgyblion yn adnabod llythrennau a synau, ac yn dechrau adeiladu geirfa’n hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gywir ac yn rhugl. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn gywir ac â mynegiant da. Maent yn siarad yn hyderus am eu hoff lyfrau a chymeriadau. Maent yn esbonio’n feddylgar pam y maent yn hoffi ffurfiau penodol o storïau. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau darllen yn effeithiol i gasglu gwybodaeth o ystod o ffynonellau, er enghraifft wrth ymchwilio i fasnachwyr ac ysbeilwyr yn eu gwaith pwnc.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu medrau ysgrifennu’n briodol ar draws pob agwedd ar y cwricwlwm. Yn y cyfnod sylfaen, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu gwybodaeth am lythrennau a synau’n dda i sillafu geiriau anghyfarwydd yn ffonetig. Gwna’r disgyblion eu llyfrau gwybodaeth diddorol eu hunain am ddeinosoriaid. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, maent yn deall ac yn defnyddio atalnodi sylfaenol gyda rhywfaint o gywirdeb i adlewyrchu ystyr eu hysgrifennu. Yng nghyfnod allweddol 2, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cynllunio, ailddrafftio a gwella eu hysgrifennu’n effeithlon. Maent yn ysgrifennu at ystod o ddibenion ac yn cynhyrchu darnau diddorol. Mae llythyr gan rywun sydd wedi goroesi ar ôl i losgfynydd Feswfiws ffrwydro yn disgrifio’n atgofus yr ofn o fod yr unig un ar ôl ym Mhompei. Mae disgyblion hŷn yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos aeddfedrwydd a hyder wrth ddisgrifio a phortreadu lleidr posibl mewn erthygl papur newydd.

Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, gwna llawer ohonynt gynnydd araf wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg llafar. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn ymateb i gyfarwyddiadau ac yn dangos dealltwriaeth resymol o’r Gymraeg sy’n cael ei defnyddio gan athrawon mewn gwersi Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud digon o gynnydd wrth ddefnyddio’r Gymraeg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol yn yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen a chyfnod allweddol 2, dim ond megis dechrau cael eu datblygu y mae medrau darllen ac ysgrifennu y mwyafrif o ddisgyblion yn y Gymraeg.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau mewn mathemateg yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid ydynt yn eu datblygu'n briodol yn eu dysgu mewn pynciau eraill. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos amgyffrediad cadarn o ffeithiau rhif, ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn effeithiol i ddatrys problemau rhif yn eu gweithgareddau, er enghraifft wrth adio cyfansymiau'r 'dartiau gludiog' sy'n cael eu taflu at fwrdd dartiau â rhifau arno. Maent yn mynd i'r afael â mesuriadau gwahanol ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn gywir i drafod eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion yn dweud yr amser yn gywir mewn fformat analog a digidol. Maent yn adnabod ffracsiynau chwarter, hanner a thri chwarter ac mae ganddynt ddealltwriaeth dda o briodweddau siapiau rheolaidd ac yn adnabod siapiau 3D yn gywir. Yng nghyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o strategaethau mathemategol gwahanol. Maent yn datrys problemau adio a thynnu yn effeithiol gan ddefnyddio ystod o rifau. Mae llawer ohonynt yn mesur yn gywir i gyfrifo arwynebedd a pherimedr siapiau. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau'n briodol, er enghraifft i gynrychioli a dehongli data'n gywir mewn graff wrth gymharu tymereddau lleoliadau gwahanol ledled y byd.

Nid yw medrau TGCh y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol wedi eu datblygu'n ddigonol. Yn y cyfnod sylfaen, ychydig iawn o ddisgyblion sy'n defnyddio meddalwedd i greu lluniau ac animeiddiadau syml yn rheolaidd. Maent yn cael trafferth wrth lunio graff am hoff ffrwythau'r dosbarth ac wrth reoli crwban ar y llawr neu'r sgrin. Ar waelod cyfnod allweddol 2, lleiafrif o'r disgyblion sydd wedi datblygu eu medrau prosesu geiriau i lefel foddhaol. Mae ychydig ohonynt yn llunio graff addas i ddangos data'n gywir, ac yn cyfuno testun, sain a lluniau i gynhyrchu cyflwyniad ystyrlon. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion wedi datblygu eu medrau TGCh yn briodol. Maent yn llunio poster â thestun a lliwiau amrywiol, er enghraifft i ddangos diogelwch tân gwyllt. Mae'r mwyafrif ohonynt yn llunio animeiddiad pwrpasol i adrodd hanes Dewi Sant. Maent yn dechrau datblygu medrau codio addas trwy greu rhaglenni syml i reoli delwedd ar y sgrin.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os oes ganddynt unrhyw broblem. Mae 'Bydis Buarth' yn dangos lefelau uchel o ofal wrth iddynt helpu disgyblion iau yn ystod amser egwyl. Maent yn dangos ystyriaeth i ddisgyblion sy'n eistedd ar y 'fainc ffrindiau' ac yn helpu i ofalu am offer y buarth.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut i gadw'n iach, ac maent yn mynegi hyn yn glir wrth drafod eu harferion bwyta ac yfed, a phwysigrwydd cadw'n heini. Maent yn cymryd rhan mewn ystod addas o weithgareddau ar ôl ysgol, gan gynnwys athletau, pêl-droed a dawnsio. Maent yn deall yn dda sut i gadw'n ddiogel ar-lein. Er enghraifft, mae'r arweinwyr digidol yn gweithio yn y dosbarth â disgyblion iau i lunio gwybodaeth ddefnyddiol i atgoffa pob disgybl am gadw'n ddiogel.

Mae bron pob disgybl yn datblygu agwedd gadarnhaol at ddysgu, yn ymdawelu'n gyflym i weithio ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dangos lefelau da o ganolbwyntio yn eu gwaith ac yn awyddus i ddysgu. Maent yn mwynhau'r ysgol ac yn gweithio'n galed. Teimlant fod yr ysgol yn eu gwerthfawrogi. Mae hyn yn gwella eu hunanhyder ac yn cynnal eu cynnydd wrth iddynt symud drwy'r ysgol.

Mae bron pob disgybl yn gyfeillgar a chwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cydweithio'n llwyddiannus ac mae bron pob un ohonynt yn ymddwyn yn dda yn ystod gwersi ac amser chwarae.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan yn frwdfrydig ym mywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn cynrychioli eu cymheiriaid yn aeddfed ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bob disgybl. Maent yn gweithio'n ddiwyd i gefnogi elusennau lleol a phobl lai ffodus mewn gwledydd eraill. Mae hyn wedi rhoi dealltwriaeth dda i bob un o'r disgyblion o'u cymuned leol a'r byd ehangach. Mae aelodau'r cyngor eco yn cymryd rhan yn weithredol mewn amrywiaeth o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth yr ysgol gyfan o faterion yn ymwneud â chynaliadwyedd, fel ailgylchu ac arbed ynni.

Mae disgyblion yn ymwybodol o'r angen i fynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Mae presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf wedi dangos arwyddion cyson o welliant, ond mae'n gyffredinol is nag ysgolion tebyg o hyd.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwelliant**

Mae perthynas waith effeithiol rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin amgylchedd dysgu llwyddiannus. Mae athrawon yn cysylltu eu gwersi'n dda â dysgu blaenorol disgyblion ac yn defnyddio ystod o ddulliau addysgu'n fedrus i ennyn diddordeb disgyblion. Maent yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n annog disgyblion i gyfranogi a gweithio'n galed mewn grwpiau ac yn annibynnol. Mae cyflwyniadau gwersi yn fywiog ac mae gweithgareddau'n llifo'n bwrpasol. Mae athrawon yn esbonio syniadau newydd mewn ffordd ystyrlon a pherthnasol. Maent yn gofyn cwestiynau treiddgar er mwyn ymestyn dealltwriaeth disgyblion a'u hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl trwy gydol y wers. Gwna staff cymorth gyfraniad effeithiol i ansawdd dysgu disgyblion. Fodd bynnag, mae tueddiad ar adegau i athrawon yng nghyfnod allweddol 2 orgyfarwyddo disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain ac, o ganlyniad, nid yw eu medrau meddwl ac ymholi wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae athrawon yn rhoi adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Maent yn marcio gwaith disgyblion yn bwrpasol, ac yn rhoi cydbwysedd da o adborth cadarnhaol a sylwadau sy'n helpu disgyblion i wybod sut i wella eu gwaith. Mae hyn yn sicrhau, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, bod disgyblion wedi datblygu dealltwriaeth dda o ba mor dda maent yn cyflawni a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

Mae gwelliannau diweddar yn y cyfnod sylfaen yn dechrau cael effaith gadarnhaol. Mae manteisio ar yr ardal allanol yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn cael budd o weithgareddau symbylol, dan do ac yn yr awyr agored. Darperir gweithgareddau ffocws a pharhaus effeithiol, sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion archwilio, chwarae rôl, adeiladu ac ymarfer eu medrau corfforol. Mae hyn yn meithrin agweddau cadarnhaol at ddysgu ac yn eu hannog i ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig.

Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlaidd. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'n systematig i ddatblygu medrau rhifedd a TGCh er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad. Yng nghyfnod allweddol 2, nid yw cynllunio ar gyfer gwyddoniaeth a gwaith pwnc yn sicrhau gweithgareddau addas i'r ystod allu bob tro, er mwyn ymateb

i anghenion pob disgybl. Mae'r defnydd eithafol o daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu disgyblion i ysgrifennu'n greadigol ac yn ymestynnol.

Er bod cynllunio ar gyfer y Gymraeg yn fanwl, hyd yn hyn, nid yw addysgu a dysgu yn sicrhau dilyniant a pharhad llwyddiannus ym medrau disgyblion wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r ysgol yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymreig yn effeithiol, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn eisteddfodau, gwaith ar Santes Dwynwen, Dewi Sant, y Tywysog Llywelyn a'r Dywysoges Gwenllian.

### Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ansawdd y gofal, cymorth ac arweiniad sy'n cael ei ddarparu gan yr ysgol yn effeithiol ac yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu dealltwriaeth gadarn o werthoedd, fel gonestrwydd a thegwch. Mae'r ethos gofalgar a chynhwysol yn cael effaith gadarnhaol ar les ac ymddygiad disgyblion. Mae staff yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn ymateb yn sensitif ac yn effeithiol i'w hanghenion unigol. O ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae hyn yn helpu i ddatblygu eu hunanhyder a hunan-barch.

Mae'r ysgol wedi datblygu system gadarn ar gyfer olrhain a monitro cynnydd a lles disgyblion. Mae staff yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i gynllunio a darparu cymorth cynhwysfawr i fynd i'r afael ag anghenion unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion yn llwyddiannus. Caiff disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol eu hadnabod yn gynnar. Mae cynlluniau addysg unigol yn canolbwyntio'n dda iawn ar y plentyn ac yn nodi targedau ar gyfer gwella, sy'n cael eu rhannu'n bwrpasol â staff, rhieni a disgyblion. Mae staff yn monitro cynnydd tuag at y targedau hyn yn briodol ac yn sicrhau bod y disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da. Dyma un o gryfderau'r ysgol. Mae cynorthwywyr cymorth dosbarthiadau yn gweithio'n fedrus dan arweiniad athrawon i roi ystod eang o raglenni ymyrraeth pwrpasol ar waith.

Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni ddysgu sut i gynorthwyo eu plant gartref. Mae'r gweithdy ffoneg i rieni yn eu helpu i ennill dealltwriaeth dda o sut i gynorthwyo eu plant i wella eu medrau darllen. Mae cyfryngau cymdeithasol a chylchlythyron yr ysgol yn effeithiol o ran rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i rieni am ddigwyddiadau a gweithgareddau'r ysgol. Mae adroddiadau i rieni yn addysgiadol ac yn cael eu croesawu'n fawr, ac maent yn amlinellu'n glir pa mor dda y mae disgyblion yn cyflawni ac yn rhoi gwybod i rieni am dargedau gwella eu plant.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol ag ystod eang o asiantaethau allanol sy'n darparu cymorth da i ddysgwyr. Mae'n cydweithio'n agos â'r seicolegydd addysg a'r gwasanaeth cynhwysiant cymdeithasol. Mae'r ysgol, gyda chymorth gan y swyddog lles addysg, yn rhoi ystod o strategaethau ar waith i hyrwyddo presenoldeb a phrydlondeb disgyblion. O ganlyniad, mae presenoldeb dros y tair blynedd diwethaf yn dangos arwyddion araf ond cyson o wella.

Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd niferus i ddisgyblion ddweud eu dweud trwy amryw fforymau disgyblion. Mae'n rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu dysgwyr sy'n ddinasyddion cyfrifol drwy eu hannog i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill a chodi arian ar gyfer elusennau'n rheolaidd. Mae ganddi gysylltiadau

effeithiol â'r eglwys leol, lle caiff Gŵyl Diolchgarwch a gwasanaeth Nadolig yr ysgol eu cynnal.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae'n annog disgyblion i fwyta diet iach drwy ddarparu siop ffrwythau dyddiol. Mae'r clybiau allgyrsiol, fel pêl-droed a dawns, yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion yn llwyddiannus o bwysigrwydd cadw'n heini.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwelliant**

Mae'r pennaeth a'r staff yn llwyddo i greu ethos cartrefol a chynhwysol i ddisgyblion. Mae'r holl staff yn rhannu gwerthoedd cyffredin ac mae ganddynt nodau clir ar gyfer gwella'r ysgol sy'n canolbwyntio'n gyffredinol ar anghenion disgyblion a chodi safonau. Mae athrawon a staff cymorth yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda. Mae'r gymuned ysgol i gyd wedi ymrwymo i arwyddair yr ysgol, sef 'Cyfoethogi Bywyd wrth Ddysgu', a chaiff hyn ei adlewyrchu yn yr ethos cadarnhaol sydd i'w weld ym mhob dosbarth.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol o waith yr ysgol, yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cyflawni eu dyletswyddau'n gydwybodol. Ers llunio eu 'blaengynllun gwaith' eu hunain, mae rolau a chyfrifoldebau wedi eu diffinio'n glir. Maent yn trafod data cyrhaeddiad, yn cymryd rhan mewn teithiau dysgu ac yn ymwybodol o'r blaenoriaethau yn y cynllun datblygu ysgol. Mae hyn yn eu galluogi i weithredu fel cyfeillion beirniadol. Maent yn dod yn fwy effeithiol o ran herio'r ysgol a'i dwyn i gyfrif am ei pherfformiad.

Fodd bynnag, nid yw arweinwyr yn gweithredu'n ddigon effeithiol wrth bennu cyfeiriad strategol na herio perfformiad yr ysgol. Nid oes gan yr ysgol weithdrefnau hunanwerthuso digon cadarn sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth ddibynadwy o addysgu, dysgu a darpariaeth. Nid yw arsylwi gwersi a chraffu ar samplau o waith disgyblion yn cael eu defnyddio'n ddigonol wrth werthuso perfformiad a phennu targedau. Yn yr adroddiad hunanwerthuso, mae nifer o farnau yn ymwneud â pherfformiad yr ysgol yn anghywir, er enghraifft safonau mewn TGCh.

Er bod y cynllun gwella ysgol yn nodi blaenoriaethau priodol i wella deilliannau i ddisgyblion, nid yw'n cynnwys camau gweithredu sy'n ddigon cadarn i arwain at newid.

Mae system rheoli perfformiad glir yn cyfrannu'n briodol at ddatblygiad proffesiynol yr holl staff. Mae cynllun hyfforddiant manwl yn cysylltu'n effeithiol â blaenoriaethau'r ysgol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i bob aelod staff rannu profiadau ac arfer dda gyda chydweithwyr yn yr ysgol ac mewn ysgolion eraill. Mae hyn wedi helpu i ddatblygu eu dealltwriaeth gychwynnol o ofynion y cwricwlwm newydd, ac mae'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar gynllunio a chynnal partneriaethau gwerthfawr.

Mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau gwella'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli gwariant yn ofalus, ac yn sicrhau y caiff adnoddau ariannol eu defnyddio'n llawn i ategu blaenoriaethau ar

gyfer gwella. Mae defnydd effeithiol o'r grant datblygu disgyblion i gynorthwyo'r ychydig o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn safonau disgyblion, yn enwedig o ran gwella eu medrau darllen.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/07/2019